

## Manyleb Swydd

<b>Teitl swydd:</b>	Swyddog Cyllid
<b>Prosiect:</b>	Arwain DGC
<b>Adran:</b>	Cyllid
<b>Lleoliad:</b>	Unrhyw swyddfa Menter a Busnes a/neu weithio o gartref, gan deithio'n rheolaidd i Aberystwyth Gweithio o gartref tra bod cyfyngiadau COVID-19 yn parhau
<b>Rheolwr Llinell:</b>	Cyfarwyddwr Cyllid
<b>Gradd:</b>	4
<b>Cyflog:</b>	£26,895 - £29,613 <i>pro rata</i> (gan ddechrau ar £26,895)
<b>Cytundeb:</b>	Parhaol (prosiect hyd at 30 Mehefin 2023)* Rhan-amser (0.8 cyfwerth ag amser llawn)
<b>Sgiliau Dwyieithog:</b>	Hanfodol

\*Mae cynnig ffurfiol y swydd hon i'r ymgeisydd llwyddiannus yn ddibynnol ar Menter a Busnes yn derbyn cadarnhad swyddogol o gymeradwyaeth y prosiect. Gan gymryd bod cymeradwyaeth yn cael ei gadarnhau, disgwylir, er nad yw'n bendant, y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus mewn lle erbyn Awst/Medi ymlaen.

---

### Cefndir: Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR) mewn Anifeiliaid

Nod y prosiect hwn, a ariennir drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, yw mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn anifeiliaid ac yn yr amgylchedd yn unol â Chynllun Gweithredu pum mlynedd Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd (2019-24) Llywodraeth Cymru.

Bydd y prosiect yn cael ei ddarparu gan y partneriaid canlynol:

- Menter a Busnes
- Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru (WLBP)
- Prifysgol Aberystwyth, Ysgol Filfeddygol
- Prifysgol Bryste
- Iechyd Da
- Milfeddygon Gogledd Cymru

Bydd y prosiect yn cael ei arwain a'i reoli gan Menter a Busnes.

Menter a Busnes yw un o brif gwmnïau datblygu economaidd annibynnol Cymru. Yn ogystal â darparu rhaglenni a gwasanaethau cymorth busnes ar ran Llywodraeth Cymru a sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol eraill, rydym yn gweithio gyda chleientiaid masnachol i gynllunio a darparu gwasanaethau mewn meysydd megis cymorth busnes, entrepreneuriaeth ac arloesedd i ddatblygu a thyfu busnesau.

### Nod y Prosiect

- Datblygu Rhwydwaith Hyrwyddwyr Rhagnodi Milfeddygol (VPC), sy'n cynrychioli practisau milfeddygol fferm yng Nghymru, i wella safonau rhagnodi gwrthficrobaidd.

- Cyflwyno cod ymddygiad gwirfoddol, wedi'i gyd-ddylunio ar gyfer rhagnodi meddyginiaethau gwrthficrobaidd ar draws practisau milfeddygol fferm yng Nghymru
- Datblygu cyfres o ganllawiau rhagnodi gwrthfotigau'n seiliedig ar dystiolaeth, mewn cydweithrediad â'r Hyrwyddwyr Rhagnodi Milfeddygol (VPC)
- Defnyddio technoleg newydd i archwilio datrysiadau'n ymwneud â bioddiogelwch ac amaethyddiaeth fanwl gywir i leihau baich clefydau cyffredinol a'r angen am wrthficrobau mewn anifeiliaid fferm
- Coladu, dilysu a dadansoddi set ddata sylweddol (4500) o ddefnydd o driniaethau gwrthficrobaidd (AMU) ar lefel milfeddygon a ffermydd i sicrhau bod eu defnydd yn cael ei gofnodi'n addas ar gyfer y dyfodol
- Adeiladu dealltwriaeth o ddatblygiad a throsglwyddiad AMR ar ffermydd llaeth, cig eidion a defaid Cymru trwy samplu ffermydd yn amgylcheddol
- Cyflwyno rhaglenni cyfnewid gwybodaeth ar stiwardiaeth gwrthficrobaidd i filfeddygon, ffermwyr a pherchnogion ceffylau
- Cyflwyno data gwyliadwriaeth syndromig a threalu system ar gyfer casglu data yn barhaus
- Mesur effaith y prosiect trwy ddadansoddiad meintiol o Ymwrthedd Gwrthficrobaidd ac ymchwil weithredol ansoddol
- Dylunio rhaglen wylidwriaeth weithredol
- Deall patrymau Ymwrthedd Gwrthficrobaidd yn y diwydiant ceffylau

## **Nod y Rôl**

Arwain ar broses hawlio'r prosiect trwy gydlyn a chyd-gasglu hawliadau ariannol y cwmni a phartneriaid y prosiect yn effeithiol, gan gynnwys sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei darparu gan bartneriaid y prosiect, a'i chysoni, a bod hawliadau'n cael eu prosesu a'u darparu'n brydlon.

## **Prif Gyfrifoldebau**

- Goruchwylio'r broses hawlio fisol/chwarterol ar gyfer gweithgareddau Arwain DGC gyda chefnogaeth gan yr adran gyllid, gan sicrhau bod terfynau amser yn cael eu bodloni
- Meithrin a chynnal perthynas waith effeithiol a phroffesiynol gyda phartneriaid y prosiect, gan sicrhau proses hawlio effeithiol
- Sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei darparu gan bartneriaid y prosiect ar amser a bod gofynion ariannu'n cael eu bodloni, gan sicrhau darpariaeth o wybodaeth ariannol a thystiolaeth ategol gywir
- Gweithio'n agos gyda'r Swyddog Gweinyddu a Chyllid i baratoi hawliadau
- Paratoi a llwytho hawliadau i WEFO gyda chymorth y tîm cyllid yn ôl yr angen
- Cysoni hawliadau â thaliadau
- Ymateb yn weithredol i geisiadau am wybodaeth ychwanegol a rheoli archwiliadau prosiect yn unol â chais cyllidwyr prosiect
- Gweithio gyda'r Rheolwr Prosiect trwy baratoi a diweddarau adroddiadau a thae'n lenni i hwyluso'r gwaith o reoli a monitro targedau prosiect, gwariant a rheoli cyllideb
- Cadw gwybodaeth gywir am dargedau cyllid a thargedau'r prosiect (dangosyddion) i'w cymharu gyda gwariant y prosiect a'r proffil gweithgareddau

- Monitro, adolygu ac adrodd yn gywir ar allbynnau ariannol, gwariant a pherfformiad i'r Rheolwr Prosiect, Cyfarwyddwr Prosiect a Chyfarwyddwr Cyllid yn unol â gofynion contract Llywodraeth Cymru a sefydliadau ariannu eraill, gan gynnwys creu a chynnal systemau rheoli a monitro effeithiol i fodloni gofynion archwilio perthnasol.
- Profi, mesur a gwerthuso cyllid a DPA yn barhaus, gan sicrhau bod adroddiadau'n cael eu creu a'u dosbarthu i'r rhanddeiliaid perthnasol
- Sicrhau cyfrinachedd yr holl wybodaeth ariannol a phersonél yn yr adran gyllid
- Sicrhau cydymffurfiaid â rheoliadau Diogelu Data
- Mynychu cyfarfodydd mewnol ac allanol yn ôl yr angen yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Prosiect a Rheolwr Prosiect
- Darparu cefnogaeth i aelodau eraill o'r tîm yn ôl yr angen, h.y. ymateb i ymholiadau dros y ffôn ac e-bost

### **Arall**

- Sicrhau bod safonau caffael, ansawdd, gwasanaeth cwsmeriaid, cydraddoldeb ac amrywiaeth, lechyd a Diogelwch a bioddiogelwch yn cael eu bodloni
- Derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill a chynrychioli Menter a Busnes yn ôl yr angen

### **Sgiliau a Phrofiad**

#### **Hanfodol**

- Addysg hyd lefel gradd neu gyfwerth mewn pwnc cysylltiedig, neu brofiad o weithio ym maes cyllid
- Profiad o weithio gyda meddalwedd Sage a Microsoft Excel
- Sgiliau rhifedd ar lefel uchel ac yn gyfforddus wrth ddehongli, rheoli a dadansoddi data ariannol, gyda chywirdeb a sylw i fanylion
- Profiad o weithio tuag at derfynau amser tynn a rheoli llwythi gwaith
- Sgiliau trefnu, cydlynu, rheoli amser a gweinyddol cyffredinol rhagorol
- Yn gallu dilyn gweithdrefnau a phrosesau i gynnal cydymffurfiaeth, ansawdd a chysondeb
- Yn gallu mewnbynnu data yn gywir a storio data yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data berthnasol
- Profiad o weithio a chyfrannu'n effeithiol o fewn tîm prosiect
- Sgiliau cyfathrebu dwyieithog llafar ac ysgrifenedig (Cymraeg / Saesneg) rhagorol
- Yn gallu gwneud penderfyniadau anodd ac amserol er budd y busnes a/neu'r gwasanaeth, gan gynnwys codi pryderon priodol yn ymwneud â darparu'r gwasanaeth, cyllidebau a staff/isgontractwyr
- Sgiliau rhyngpersonol uwch
- Yn gallu bod yn rhagweithiol a gyrru pethau ymlaen yn effeithiol, yn annibynnol ac fel rhan o dîm
- Yn gallu cymell ei hun, ac yn gallu derbyn cyfrifoldeb am osod ac adolygu blaenoriaethau er mwyn cyflawni targedau gyda ffocws clir ar ansawdd
- Sgiliau TG uwch gan gynnwys Word, Excel, PowerPoint, E-bost, Cronfeydd Data a'r Rhyngwyd
- Profiad o fewn maes tebyg

## **Dymunol**

- Profiad o reoli cyllidebau
- Trwydded yrru lawn a defnyddio car (efallai y bydd angen teithio ledled Cymru ar gyfer y rôl hon)

## **Gwneud Cais**

Gallwch wneud cais am y swydd hon trwy lenwi ffurflen gais a ffurflen cyfle cyfartal (ar gael ar ein gwefan [www.menterabusnes.co.uk](http://www.menterabusnes.co.uk) ) a'u dychwelyd i [swyddi@menterabusnes.co.uk](mailto:swyddi@menterabusnes.co.uk).

Os ydych chi am gael sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r swydd hon, cysylltwch â Dewi Hughes ar 01970 631412.

## **Cyfweliadau**

Bydd y cyfweliadau ar gyfer y swydd hon yn cael eu cynnal ar-lein trwy naill ai Zoom neu Google Meet ar yr wythnos cychwyn 16 Awst 2021. Os nad ydych ar gael yr wythnos yno, nodwch os gwelwch yn dda

## **Dyddiad Cau**

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw: 10.00am, dydd Llun, 9 Awst 2021.

## **Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Gweler ein gwefan am ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.